

# Papur Pawb

Pris: 50c

Tachwedd 2009

Rhif 353



Gweler adroddiad ar tudalen 7

tud 3/7

Pobl a Phethe

tud 5/9

Ysgolion

tud 6

Ioan Gwyn

tud 12

Chwaraeon

## Stormydd ar y Gorwel?

Wrth i 2009 dynnu tua'i therfyn, mae'r rhagolygon am 2010 a 2011 yn argoeli bod yn gyfnod diddorol – os nad cythryblus – i'r ardal yn sgil dau ddatblygiad newydd arfaethedig. Bydd darllenwyr *Papur Pawb* eisoes yn gyfarwydd â'r datblygiad cyntaf, sef bwriad Cwmni Airtricity i godi fferm wynt yn ardal Nant-y-moch. Ar 22 Hydref cyhoeddwyd y bydd y cais datblygu hwn ymhlith y cyntaf i'w roi gerbron y Comisiwn Cynllunio Strwythurol (*IPC*) pan fydd hwnnw'n dechrau ar ei waith ar 1 Mawrth 2010. Sefydlwyd y Comisiwn newydd gan Lywodraeth Llundain, yn fwriadol i gyflymu'r broses gynllunio ar brojectau mawr yr ystyrir eu bod o bwys strategol i'r Deyrnas Gyfunol. Ar waethaf sicrwydd gan Gadeirydd y Comisiwn, Sir Michael Pitt, y bydd y Comisiwn yn ymgynghori'n eang ac yn gwrandao ar farn trigolion a chynrychiolwyr lleol cyn gwneud dyfarniad, mae nifer yn gwrthwynebu'r ymyrraeth ar broses gynllunio sydd wedi bod yn ei lle ers degawdau. Does dim amheuaeth y bydd penderfyniadau'r Comisiwn yn dod o dan y chwyddwydr yn ystod blynyddoedd cyntaf ei fodolaeth. Peidiwch â synnu, felly, os daw'r enw Fferm Wynt Nant-y-moch mor gyfarwydd drwy Ynysoedd Prydain â

*Sizewell B* yn ystod y blynyddoedd nesaf. Y cam nesaf wrth i'r cwmni baratoi cais cynllunio fydd trefnu taith arbrofol 'llwyth abnormal' o ddociau Abertawe i Fwlch Nant yr Arian a Choed Penrhyn-gerwyn ar 25 a 26 Tachwedd. Mae'r cwmni'n pwysleisio nad ydynt eto wedi penderfynu ar y llwybr terfynol i drosglwyddo'r twrbinau o ddociau Abertawe, na chwaith leoliad y manau mynediad i'r safle petai'r cais yn un llwyddiannus.

Hyd yn hyn, cafodd yr ail ddatblygiad o bwysigrwydd lleol – sef clustnodi pentref Tal-y-bont fel un o'r Canolfannau

Gwasanaethau Gwledig yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion – lawer llai o sylw na'r fferm wynt arfaethedig, er y gall goblygiadau'r datblygiad, er gwell neu er gwaeth, fod o bwys mwy pellgyrhaeddol i drigolion yr ardal. Ond mae'n bur debyg y bydd diddordeb y cyhoedd yn y Cynllun yn gwednewid pan fydd Awdurdod Cynllunio Ceredigion yn cyhoeddi nifer a lleoliad y tai newydd yr hoffent eu gweld yn cael eu codi ym mhentref Tal-y-bont a'r pentrefi cyfagos yn y cyfnod hyd at 2022.

Eisoes mae Adran Gynllunio Cyngor Ceredigion yn asesu addasrwydd safleoedd posib ar gyfer datblygiad tai oddi mewn i

ffiniau pentref Tal-y-bont ond, gan nad yw'r broses eto'n gyflawn, bydd yn rhaid aros tan y gwanwyn 2010 cyn y cawn wybod pa safleoedd y mae'r Cyngor Sir yn eu ffafrio. Eisoes codwyd 32 o dai newydd yng nghanol pentref Tal-y-bont dros y 7 mlynedd diwethaf, a rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi 10 tŷ ychwanegol ers Medi 2007. Y cwestiwn sylfaenol sy'n rhaid ei holi yw, 'A oes tystiolaeth i brofi bod galw am godi rhagor o dai i ddiwallu'r angen lleol?' Bydd cyfle i'r cyhoedd ymateb i argymhellion dogfen ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol pan gyhoeddir honno rywbryd yn ystod gwanwyn

## Cyfarwyddwyr ffilm llwyddiannus

Ar 23 Hydref enillodd Robin a Carwyn Tomos, Pentrebach, wobwr am eu gwaith yn cynhyrchu ffilm fer animeiddiedig o'r enw 'Mwg, Myg, Mog'. Cynhaliwyd gweithdy ffilmiau yn y Tabernacl, Machynlleth, dan ofal cwmni Film 15, a hwy hefyd oedd trefnwyr y gystadleuaeth flynyddol ar gyfer *The Pink Snowball Award*. Roedd y gystadleuaeth yn un frwd, gyda llawer o ffilmiau ardderchog yn ymgiprys am yr anrhydedd. Y beirniaid oedd y gwleidydd Lembit Opik, a

chyflwynwyd y wobwr gan un o brif animeiddwyr Aardman, y cwmni a gynhyrchodd ffilmiau *Wallace and Gromit*. Dangoswyd nifer o'r ffilmiau, yn cynnwys un Robin a Carwyn, mewn dathliad arbennig yng Nghaffi'r Plas, Machynlleth, nos Wener 6 Tachwedd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau frawd dawnus ar eu llwyddiant, ac edrychwn ymlaen at weld eu henwau mewn goleuadau neon uwchben y sinemâu yn y dyfodol!

## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	<b>(01970) 832473</b>
<b>Tynnu lluniau: Teipyddes:</b>		
<b>Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Talesin: Tal-y-bont:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Talesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	<b>832566 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483</b>
<b>Tre'r Ddôl: Maes y Deri:</b>	<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b> Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Geraint Pugh, Dôl Pistyll Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bleddyn Huws (Tanysgrifiadau)	<b>832448 832433 832384 832560 832438 (01654) 781312</b>

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## Llythyron

Indus Television  
Riverside House  
31 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9HB

### Annwyl Olygydd

Y flwyddyn nesaf, bydd BBC Cymru yn cludo dau deulu modern yn ôl i 1890 ar gyfer cyfres deledu newydd sbon, *Snowdonia Farmhouse*.

Bydd y gyfres, a gaiff ei ffilmio a'i darlledu yn 2010, yn ail-greu amgylchiadau'r 19eg ganrif wrth i'r teuluoedd fyw mewn bythynnod cyfagos ar lethrau Eryri. Cyfrifoldeb y merched fydd trin y tir, edrych ar

ôl yr anifeiliaid a rhedeg y cartref, tra bydd y dynion yn gweithio yn y chwarel lechi gyfagos.

Bydd y ffilmio'n digwydd yn ystod Mawrth/Ebrill, ond mae'r broses o recriwtio'r teuluoedd yn cychwyn nawr. Mae Teledu Indus, y cwmni cynhyrchu a fu'n gyfrifol am y gyfres lwyddiannus ac arloesol *Coal House*, yn gwahodd unrhyw deuluoedd sydd â diddordeb mewn cymryd rhan i gysylltu â nhw.

Ffoniwch ni ar 03703 500 700 neu ewch i'r wefan [www.bbc.co.uk/cymru](http://www.bbc.co.uk/cymru) i gael ffurflen gais. Y dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau yw dydd Gwener Tachwedd 27, a bydd y teuluoedd ar y rhestr fer yn cael eu hysbysu erbyn dydd Gwener Rhagfyr 4.

*Ceri Rowlands,  
Cynhyrchydd y Gyfres*

### NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

### FFAIR NADOLIG

Dydd Sadwrn 28 Tachwedd  
2.00 o'r gloch  
Mynediad £1  
(plant ysgol gynradd am ddim)

Am banded a rafflau,  
A chwmini a sgwrs,  
Anrhegion, Teganau...  
Awn i'r Neuadd, wrth gwrs!

### CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT

### NOSON GOFFI

Nos Wener, 20 Tachwedd  
6.00 o'r gloch yn y Neuadd  
Goffa

STONDINAU AMRYWIOL  
Croeso cynnes i bawb

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Seremoni Cynnau'r Goleuadau Nadolig

a Chanu Carolau yng nghwmni  
plant Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

**Mins Peis a diod i ddilyn**

Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Pnawn Iau 3 Rhagfyr am 4.30 o'r gloch  
**Croeso cynnes i bawb!**

## Dyddiadur

### Tachwedd

- 15 **Bethel 2** Gweinidog  
**Nasareth 2** Uno ym Methel  
**Rehoboth 2** Parch. Adrian Williams  
**Eglwys Dewi Sant 11**  
Cymun Bendigaid  
**Eglwys St Pedr Bontgoch (Elerch) 2.30** Cymun Bendigaid
- 16 **Merched y Wawr**  
**Tal-y-bont a'r Cylch** Janet Armstrong, Toko,  
Aberystwyth – Addurniadau Nadolig
- 19 **Sefydliad y Merched**  
**Tal-y-bont 2** Miss Wendy Farrier – Bywyd tu ôl i'r llwyfan
- 20 **Merched y Wawr**  
**Tal-y-bont a'r Cylch** Cwis Hwyl, Tyglyn Aeron  
**Cylch Meithrin Tal-y-bont 6** Noson Goffi
- 22 **Bethel 10** Gweinidog  
**Rehoboth 3.30** Bugail  
**Eglwys Dewi Sant 9.30**  
Boreol Weddi
- 28 **Neuadd Goffa Tal-y-bont 2**  
Ffair Nadolig y Neuadd
- 29 **Bethel 10** Mark Morgan  
**Nasareth 10** Huw Roderick  
**Rehoboth 10** Parch. Ifan Mason Davies  
**Eglwys Dewi Sant 2** Cymun Bendigaid  
**Eglwys St Pedr Bontgoch (Elerch) 2.30** Cyfarfod Unedig yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

### Rhagfyr

- 4 **Sioe Amaethyddol**  
**Tal-y-bont** – Cinio Blynnyddol

### CYMANFA GAROLAU A SWPER

### Capel Bethel, Tal-y-bont

Nos Sul 6 Rhagfyr am 6 o'r gloch

Arweinydd: Mr Geraint Thomas  
Artistiaid: Sophie Rudge,  
Aberystwyth,  
a disgyblion Ysgol Gynradd  
Tal-y-bont.

Pris tocyn (yn cynnwys swper):  
£10

**YR ELW I SIOE'R CARDIS,  
2010**

Am docynnau, cysylltwch â  
Dilys Morgan  
01970 832498

- 6 **Bethel 10** Gweinidog  
**Nasareth 10** Bugail (Cymun)  
**Rehoboth 2** Bugail (Cymun)  
**Eglwys Dewi Sant 2.30**  
Cymun Bendigaid  
**Eglwys St Pedr Bontgoch (Elerch) 2.30** Hwyl Weddi  
**Cymanfa Garolau Sioe'r Cardis** – Bethel, Tal-y-bont, am 6
- 7 **Pwyllgor Sioe Tal-y-bont 8**  
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 13 **Bethel 2** Parch. John Tudno Williams  
**Nasareth 10** Oedfa Nadolig y Plant, Capel Y Garn  
**Rehoboth 10** Oedfa Nadolig y Plant, Capel Y Garn  
**Eglwys Dewi Sant 2.30**  
Gosber a Chymun
- 14 **Cylch Meithrin Tal-y-bont 6.30** Cyngerdd Nadolig

### Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth ffilmio dychmygu o'r safon uchaf.

Cewch ddeunod amrediad eang o ddiplawgosed a ffilmiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.


Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,  
Ceredigion SA74 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan  
Llywodraeth  
Cymunedol Cymru



Cychwyn ydydd cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
Ffôn: 01970 832438



**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Eleri a Gwilym, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Medi (01970 832725); llanerch@globalnet.co.uk), Nic (832001) a Fran (832214, gydag Elgan (elganriffiths@btinternet.com) yn dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 4 Rhagfyr a bydd y papur ar werth ar 11 Rhagfyr.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau calonog i Tom Cosson a Llio Mair Rhys, Brynarian, Taliesin, ar enedigaeth eu mab cyntafanedig, Hopcyn Rhys Cosson, ar 4 Hydref. Ddeuddydd yn ddiweddarach, ar 6 Hydref, ganed merch (Hannah Mary Ann) i Hayley a Matt Willis, sy'n byw yn Ystordy, Taliesin. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## Gwellhad buan

Pob dymuniad da i David Griffiths, 68 Maes-y-deri, Tal-y-bont, a fu'n derbyn triniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar, a llongyfarchiadau iddo hefyd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

## Genedigaeth wŷr

Llongyfarchiadau i Eleri a Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont, ar ddod yn nain a thaid unwaith yn rhagor. Ganed mab (Twm Rhys) i Owain ac Eva Huw, Fronlas, Llandeilo, yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, bnawn Mawrth 20 Hydref. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu Pen-y-graig, Bont-goch, yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. Ddydd Sul 18 Hydref, yn Ysbyty Bronglais, bu farw Mr John Edwards, Annwylfan, Pen-y-garn (gynt o Fferm Peithyll, Capel Dewi), tad Tegwen Evans, tad-yng-nghyfraith Dewi Evans a thad-cu Keith ac Aled. Anfonwn ein cofion cywiraf i'r teulu.

## Cartref Newydd

Croeso i Huw a Mair Rowlands, a'u merch Susan, sydd wedi symud yn ddiweddar o Gwafelin i'w cartref newydd, sef Erglodd, Taliesin. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Evans, Tyrrell Place, Tal-y-bont, a'r teulu ar farwolaeth Mrs Glenys Thomas, ei chwaer-yng-nghyfraith, yn ddiweddar. Mae teyrnged i Mrs Thomas i'w gweld yn y rhifyn hwn.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Polly Williams a Joab Hustings, Gwelfor, Ffwrnais, ar enedigaeth eu mab, Felix Buster yn ddiweddar. Mae'n braf clywed ei fod e allan o'r 'incubator' yn Ysbyty Treforus erbyn hyn, ac wedi cael mynd adre at Mam a Dad.

# Pobl a Phethe



## Priodas

Ddydd Sadwrn 31 Hydref, ym Mhlas Talgarth, Pennal, priodwyd Ruth Miriam Roberts, merch ieuengaf Eric a Liz Roberts, 12 Maes-y-deri, Tal-y-bont, â Mark Sainsbury. Mae'r ddau yn byw a gweithio yng Nghaerdydd, a dymunwn briodas hapus iawn iddynt.

## Llwyddiant Ruth Jên

Ar ôl i Mrs Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, ddarllen yr erthygl am furlun newydd Ruth Jên y tu allan i Salon Leri yn y rhifyn diwethaf o *Papur Pawb*, cofiodd iddi weld enghreifftiau trawiadol o waith Ruth yn Sioe Llanelwedd eleni. Sylwodd, am y tro cyntaf, ar blâc ar wal yr Adran Llaethdy yn Neuadd Morgannwg – plâc oedd yno er 2004. Yn y Neuadd rhyfeddwyd Ann wrth weld lluniau o waith Ruth Jên yn addurno'r waliau – lluniau a ddangosai bob agwedd o waith cynhyrchu llaeth, menyng a chaws. Yn ôl Ann, 'Maent yn wir yn ardderchog, ac yn dangos y dalent aruthrol sydd gan Ruth. Y tro nesaf y byddwch yn Llanelwedd, galwch i mewn – mae'r lluniau'n werth eu gweld.'

Roedd llun o Ruth ar glawr rhifyn 29 Hydref o *Golwg*, a'r tu mewn roedd llun ohoni hi a'i stiwdio yn yr Hen Siop Sgidiâu, ac

erthygl yn sôn am ei bywyd prysur a'i gwaith. Ar wefan *Golwg 360*, ceir hanes a lluniau Ruth yn trawsnewid hen gynhwysydd a ddefnyddir gan yr ysgol a'r tîm pêl-droed lleol i gadw offer, gan ei droi'n ddarn o gelfyddyd.

Rydym yn ffodus iawn o gael artist o galibr Ruth yn byw yn ein hardal, yn enwedig gan ei bod yn cyfrannu at fywyd y gymdeithas mewn cynifer o wahanol ffyrdd.

## Croeso Gartref

Mae'n bleser croesawu Mrs Enid Williams, Frondirion, Taliesin, gartref ar ôl iddi dreulio ychydig wythnosau yng Nghartref Tregerddan.

## Diolch


Dymuna Mai Leeding, Taliesin, ddiolch o galon i bawb am y negeseuon ffôn, y cardiau a'r blodau a dderbyniodd ar ôl cael damwain ar ddechrau mis Medi.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Gwilym Felix Roberts, 99 Maesyderi, Tal-y-bont, a'r teulu ar gollu ei gyfnither yn ddiweddar, sef Gladys Edwards, Llys y Brenin, Aberystwyth (gynt o Benrhyn-coch).

## Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Mrs Edna Evans, 69 Maes-y-deri, Tal-y-bont, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Da deall ei bod wedi dychwelyd gartref erbyn hyn.



## Cylch Meithrin

Cynhaliwyd Parti Calan Gaeaf llwyddiannus iawn gan y Cylch Meithrin yn Neuadd Goffa Tal-y-bont yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Helen Jones am feirniadu'r gystadleuaeth gwisg ffansi, ac i Andrew Curran am noddi'r noson.



## Concro'r Copaon

Llongyfarchiadau i Ela Evans, Y Dderwen, Tal-y-bont. a Zoë Forster-Brown, Ffwrnais, ar lwyddo i ddringo i gopa tri o fynyddoedd uchaf Cymru yn ddiweddar, sef y Glyder Fawr (999 metr), Carnedd Llywelyn (1,064 metr) a'r Wyddfa (1,085 metr). Tipyn o gamp, o gofio mai 10 oed oedd y ddwy ar y pryd. Roedden nhw wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn a thrwy eu hymdrechion codwyd £1,500 at dri achos da, sef Ambiwylans Awyr Cymru, Tŷ Hafan a Barnados Cymru. Ym marn Ela, dringo i ben y Glyder Fawr oedd y sialens fwyaf anodd. A'r profiad gorau? Wel, yfed mygaid o siocled poeth yn Hafod Eryri ar ben Yr Wyddfa, gan wybod eu bod wedi cwblhau'r her! Erbyn hyn, mae'r ddwy'n awyddus i osod her newydd iddyn nhw'u hunain, ond dydyn nhw ddim wedi penderfynu eto beth yn union fydd hwnnw. Yn y cyfamser, gobeithio y cânt gyfle i ymlacio ychydig ac edrych yn ôl gyda balchder ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt.



## Swper y Cynhaeaf

Nos Fercher 21 Hydref, yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont, cynhaliodd Capel Bethel Swper Cynhaeaf tuag at yr apêl i godi arian i helpu pobl a ddiweddefodd yn erchyll yn ystod y trychinebau a ddigwyddodd yn ddiweddar yn Ne Asia. Roedd y lle'n llawn, gyda phobl o bob oed yn mwynhau clonc yng nghwmni'i gilydd, a chriw o blant a phobl ifanc hefyd yn mwynhau swper a gwyllo ffilm yn yr ystafell gefn. Ar ôl y bwyd blasus, wedi'i baratoi a'i weini gan griw o ferched ifanc dan ofal Medi James, cafwyd cwis hwyliog dan ofal Dr Geraint Evans. Rhoddwyd prawf ar ein gwybodaeth gyffredinol ac enynnwyd ambell ddadl boeth rhwng y cwisfeistr a rhai o'r cystadleuwyr brwd! Talwyd y diolchiadau gan Gwilym Huws a'r Parch. Richard Lewis, a chyhoeddodd y trysorydd, Ieuan Morgan, fod £390 wedi'i gasglu ar gyfer yr apêl.

## Stondinwraig lwyddiannus a seren y teledu!

Llongyfarchiadau i Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont, a enillodd wobwr am y stondin orau yn Ffair Fwyd Aberystwyth ddydd Sadwrn 19 Medi. Cyflwynwyd Tarian yr Ŵyl, ynghyd â gwobr ariannol o £50, i Dilys am ei harddangosfa o gacennau a chyffeithiau cartref. Y beirniaid oedd y cogydd adnabyddus Dudley Newberry, a'r Cynghorydd Trevor Shaftoe, Maer Aberystwyth. Yn ddiweddar, braf hefyd oedd gweld Dilys yn cymryd rhan yn y rhaglen deledu 'Byw yn yr Ardd', lle bu'n dangos sut i wneud jam a chytnei. Ar ei blog, mae Bethan Gwanas – un o gyflwynwyr y gyfres – yn galw Dilys yn 'frenhines y jams a'r chytneis', ac ar wefan S4C gellir gweld rysait Dilys am jam damson. Da gweld llwyddiant Dilys yn ymestyn dros Gymru gyfan, a phob dymuniad da iddi.



## Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Dydd Iau 5 Tachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf wŷn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 16 o aelodau â 35 o wŷn hyrddod i Ffald Penpompren, Talybont, a bydd y rhain yn cyd-bori ar borfa'n unig ar fferm John Morgan, Home Farm Bronwylfa, ger Wrecsam, tan ganol mis Ebrill. Cyflwynir Tarian Rhosgoch i'r oen hwrdd mwyaf addawol, gyda'r aelodau sy'n cymryd rhan yn dyfarnu 3 phwynt i'r gorau, 2 bwynt i'r ail ac un pwynt i'r trydydd. Roedd y safon yn uchel, gyda'r buddugol yn cael 25 pwynt a'r ail 20 pwynt. Rhif tag y pencampwr oedd 5902, wedi'i fridio gan Dafydd Jones, Ceiro, Ponterwyd, a'r ail oedd 4639, wedi'i fridio gan Gymdeithas C.A.M.P. Pwllpeiran.

Yn ôl Dafydd, cyfrinach ei lwyddiant oedd 'Prynu hwrdd o Glanrafon, Talybont, rai blynyddoedd yn ôl – hwnnw yw tad-cu 5902. Ef hefyd oedd tad yr hesben a enillodd y bencampwriaeth yn Sioe Fawr Llanellwedd yn 2008, am hwrdd yn bridio'n dda.'

Caiff yr wŷn eu pwyso ar ôl setlo i lawr, a hefyd ar ddiwedd y prawf, gan swyddogion H.C.C. a dau neu dri o'r perchnogion. Bryd hynny cewch ddarllen yr hanes yn llawn yn *Papur Pawb*.

*Gareth Evans*



*Y cadeirydd, Simon Lloyd-Williams, yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Dafydd Jones. Llun gan Dafydd Jenkins, Tanyrallt.*

## Ennill gwobr werth chweil!

Bu dathlu mawr yn Dolau Gwyn, Tre'r-ddôl, yn ddiweddar pan glywodd Ffion Nemes, disgybl yn Ysgol Penweddig, ei bod wedi ennill gwobr ardderchog am ysgrifennu stori am ei hoff daith ar drên. Dewisodd Ffion sôn am y daith o Aberystwyth i Lundain, ac ymweliad y teulu ag un o amgueddfeydd y ddinas. Trefnwyd y gystadleuaeth gan y 'Family and Friends Railcard', ac roedd Ffion yn un o ddeuddeg o blant dan 15 oed drwy Brydain yn y rownd derfynol. Dewiswyd hi a dau blentyn arall i ennill y dair wobwr gyntaf. Bydd yn derbyn camcordydd,



tocynnau i deulu o bedwar deithio ar y trên, a hyd at £1,000 i dalu am westy! Llongyfarchiadau mawr i Ffion ar ei champ; mae'r teulu'n gobeithio defnyddio'r wobwr i ymweld â Llundain yn ystod gwyliau'r Nadolig, a dymunwn wyliau hapus iawn iddynt.

# Ysgol Gynradd Llangynfelyn

## Traws-gwlad

Cymerodd holl ddisgyblion CA2 ran yng nghystadlueaeth traws-gwlad y dalgylch yn ddiweddar. Bydd y canlynol yn mynd ymlaen i gystadlu yng nghystadlueaeth y Sir: Toby Ross; Jac Jones; Tobia Heathfield a Teilo Courtier Lilley. Da iawn chi, a phob lwc.

## Pêl-rwyd

Croesawyd plant o Ysgol Rhydpennau i'r ysgol yn ddiweddar i chwarae pêl-rwyd. Cafwyd amser da iawn, a diolch i staff Ysgol Rhydpennau am drefnu i'r plant ddod atom.

## Sioe Sbri-di-ri

Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i Ganolfan Hamdden Plascrug i weld sioe Sbri-di-ri yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Bu'r plant yn canu caneuon cyfarwydd gyda Sali Mali a Gwenda Owen.

## Rygbi

Aeth disgyblion Blynnyddoedd 4, 5 a 6 i wyl rygbi yng nghlwb rygbi Aberystwyth. Cafodd pawb lawer o hwyl yn ymarfer sgiliau newydd a hefyd yn chwarae gêmiau bach yn erbyn ysgolion eraill.



Jenny Dingle a phlant Blynnyddoedd 5 a 6 ger Bedd Taliesin

## Taith i Fedd Taliesin

Aeth disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 i Fedd Taliesin yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith Cymraeg. Trefnwyd y trip gan Mrs Dafis, ein Hathrawes Fro. Cyfarfuwyd â staff a phlant ysgol Talybont yno a darllenwyd yr hanes iddynt gan Alun Elidir.

## Diwrnod Japan

Aeth disgyblion Blynnyddoedd 4, 5 a 6 i Ddiwrnod Rhyngwladol Japan ym Mhenweddig yn ddiweddar. Dysgwyd llawer am y wlad a cafodd y plant gyfle i wisgo dillad traddodiadol, gwneud origami a blasu bwydydd traddodiadol.



Nina, Isabel, Anansie a Tobia yn y diwrnod Siapan

## Cyngerdd Jazz

Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 3 i weld cyngerdd Jazz yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mwynhaodd pawb y profiad yn fawr.



Morgan, Isabel, Nina a Teilo yng Nghastell Henllys

## Trip i Gastell Henllys

Cafwyd diwrnod i'r brenin yng Nghastell Henllys yn ddiweddar. Aeth disgyblion CA2 ar ymweliad i atgyfnerthu ein gwaith Hanes ar y Celtiaid. Bu'r disgyblion yn gwneud llawer o waith ymarferol gan gynnwys gwneud bara, adeiladu wal a chreu basgedi. Dysgwyd llawer am fywyd y Celtiaid yng Nghymru.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cafwyd prynhawn da iawn yn neuadd Llanfach ar ddiwedd mis Hydref yn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cymerodd yr holl ddisgyblion ran mewn gwahanol ffurf, trwy ganu, dawnsio traddodiadol, chwarae offerynnau cerdd a hefyd gymnasteg! Roedd y rhieni a ffrindiau'r ysgol wedi mwynhau yn fawr iawn. Codwyd £52 tuag at Ward Angharad yn Ysbyty Bronglais.

## STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

- STORFACH E<sup>2</sup> • RHOWCH DAN OGLO •
- CADWCH Y GORIAD •

	STORFA GARTREF	• DIOBELWCH BT REDCARE 24 AWR
	STORFA FUSNES	• CCTV
	STORFA I FYFYRWYR	• WEDI'I GYMHESU
	PACEDU	• GIWBICLAU £10 yr wythnos (250 ciwb)
		• ARCHIFAU

# 01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

### Glenys E Thomas (1926–2009)

Ar ôl i Edward, tad Glenys, gael ei ladd yn Chwarel Aberllefenni yn 32 oed pan oedd hi'n wyth oed, symudodd hi gyda'i mam, Marged Jane, a Gwennie ei chwaer i Tŷ'n gornel, 20 Pencae, Taliesin, pan oeddwn i'n flwydd oed. Am inni nabod ein gilydd ar hyd y daith, a'n bod ni wedi mynychu'r Ysgol Sul, cwrdd plant ac oedfa yn Rehoboth, roedd wedi dweud droeon mai fi oedd i wasanaethu yn ei hangladd. Braint imi oedd cael gwneud hynny, a chyflwyno'r deyrnged hon i gofio am un o ferched hardd ac annwyl y pentre.

Roedd talcen ei chartref, yn ymyl siop y Temprans a thafarn y Royal Oak, yn wal dda i gicio pêl ati, ac er y byddai'r fam yn ein dwrdio ar dro, roeddem megis un teulu yn y dyddiau heulog rheiny. Ar ôl imi ddychwelyd i'r hen ardal, doedd dim yn well gan Glenys na hel atgofion am Daliesin a'i phobol pan gyfarfyddem.

Bydd llawer yn cofio am Glenys yn ferch ifanc hawddgar yn gweini yn un o dai bwyta gorau Aberystwyth, sef Owen Teviotdale (Laura Ashley heddiw). Fe'i dyrchafwyd yn reolwraig ar gyfrif ei gwaith effeithiol. Roedd pobol y wlad a ddeuai i'r bwyty ar ddiwrnod marchnad, pobol y dre a chenedlaethau o fyfyrwyr, yn enwedig bois y Coleg Diwinyddol, yn falch o gael Glenys i weini arnyn nhw – gan gynnwys fy nghyfaill Elwyn Pryse, a wasanaethodd gyda Wyn Morris a minnau yn y cynhebrwng.

Roedd addoli'n bwysig i Glenys, ac wedi symud i waelod pentre Tal-y-bont cyrchodd i Nasareth lle'r oedd teulu Wyn hefyd yn addoli. Priodwyd y ddau ar 14 Awst 1965 yn Salem/Morfa erbyn hyn, gan y Parchg. Griffith Jones, gweinidog Nasareth ar y pryd. Cymerodd Glenys Karen, merch Gwennie ei chwaer, i'w magu ac y mae hithau'n falch o'r fagwraeth dda a gafodd gan Glen a Wyn. Cartrefwyd yn Loveden Cottage, Commins Coch, a mynd i addoli i Gapel Dewi, ac wedi cau hwnnw, i Saron, Llanbadarn a maes o law i Ebeneser, Penparcau, yng ngofalaeth Y Morfa.

Byddai Glenys yn falch o wybod bod nifer o'i chydweithwyr a'i chwsmeriaid yn Teviotdale yn bresennol yn Y Morfa ddiwrnod ei hangladd ar 10fed Hydref, wrth inni ddiolch am ei llafur a'i ffydd. O gofio ei bod yn falch o gael cymryd rhan yn yr addoliad, yn enwedig yng Nghwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd, a bod ei blwch casglu at y Genhadaeth (CWM) bob amser yn llawn, mae'n addas cofio geiriau'r Meistr: 'Da, ferch dda a ffyddlon ... tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr'. Bydd cofio am y bartneriaeth hyfryd ac am y fam ofalus yn gymorth i Wyn a Karen yn eu chwithdod.

WJ Edwards

### Cantores Ifanc Ddawnus

Diddorol iawn oedd darllen am ddawn canu merch ifanc leol mewn cyfrol Saesneg yn dwyn y teitl *Once upon a time in Goginan* gan Ceiriog Gwynne Evans, a gyhoeddwyd yn ystod yr haf gan Wasg y Lolfa. Atgofion personol yr awdur o fywyd yr ardal yn ystod ei blentynodod a'i lencyndod, 1930–1950au, yw rhan ddiwyfraf y llyfr, a chyflwynir portread byw o fywyd diwylliannol llewyrchus y pentref yn y cyfnod hwnnw. Ymhlith y llu o weithgareddau diwylliannol a ddisgrifir, mae cyngherddau Parti Canu Ieuenctid Goginan. Does dim amheuaeth gan yr awdur bod safon canu unawdwyr y parti hwn yn rhagori ar fwyaf yr artistiaid sydd i'w gweld a'u clywed heddiw. Un unawdydd sy'n derbyn canmoliaeth uchel iawn ganddo, am burdeb ei llais a'i dawn dehongli, yw Tegwen Howells ac mae ganddo atgofion melys am ei pherfformiad fel *sprite* yn y sioe gerdd *Y Trubadur*. Er bod dros hanner can mlynedd ers y perfformiad hwnnw, gall trigolion ardal Tal-y-bont dystio bod llais Tegwen (Jones, Glasgoed bellach) yr un mor bersain heddiw ag erioed.

Nid Tegwen yw'r unig berson o ddiddordeb i ddarllenwyr *Papur Pawb* y cyfeirir ati yn y llyfr gan fod ynddo hanesion doniol hefyd am berthnasau i awdur y llyfr, sef Arthur a Marie Moore, a fu am rai blynyddoedd yn cadw'r *Commerical Hotel* yn Nhref-ddôl cyn newid ei enw i'r *Wildfowler*. Tybed a oes gan rai o'n darllenwyr atgofion amdanynt tra oeddynt yn y *Commercial*? Braf yw ategu sylw Suzy Ceulan Hughes, Tŷ Mawr Ceulan, sy'n disgrifio'r llyfr mewn adolygiad ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com), gwefan y Cyngor Llyfrau, fel un hynod ddiddorol sy'n haeddu cael ei ddarllen gan bobl ymhell y tu hwnt i ffiniau ardal Goginan.



### Ioan Gwyn

Pleser pur oedd bod yn bresennol yn Neuadd Goffa Tal-y-bont nos Lun 2 Tachwedd ar gyfer perfformiad Cwmni Arad Goch o'r sioe lwyfan *Twm Siôn Cati*. Braf hefyd oedd gweld pobl o bob oed yn mwynhau'r adloniant a gyflwynwyd gan griw o actorion ifanc talentog. Wrth gwrs, roedd gan y gynulleidfa ddiddordeb mwy na'r cyffredin mewn un ohonynt, sef Ioan Gwyn, Maesgwyn, a chawsom ni mo'n siomi. Yn ystod yr awr y bu Ioan ar y llwyfan fe'i gwelsom yn chwarae bump o gymeriadau gwahanol, sef gwas distadl y Sgweiar, gwerthwr powlenni aflwyddiannus, ffarmwr cybyddlyd a blin, tafarnwr twyllodrus, a siryf rhwysgfawr Shir Gâr. Bydd ei berfformiad byrlymus a llawn ystumiau corfforol o'r 'fall guys' hyn yn byw yn y cof am amser hir ymhlith yr hen a'r ifanc oedd yn bresennol.

Yn ôl y nodiadau yn y rhaglen, roedd Ioan yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael perfformio ar lwyfan y Neuadd Goffa am y tro cyntaf ers ei gyfnod fel disgybl yn Ysgol Tal-y-bont. Pan holwyd ef sut brofiad oedd perfformio 'gartref', cyfaddefodd iddo ddechrau teimlo'n nerfus am unwaith, a hynny tua hanner awr cyn codi'r llen. Ond doedd dim rhaid iddo boeni, oherwydd unwaith y cerddodd ar y llwyfan diflannodd unrhyw nerfuswydd wrth iddo ganolbwyntio ar y sioe. Roedd yn help mawr hefyd nad oedd modd iddo weld wynebau unigol yn y dorf, ond serch hynny fe glywodd besychiad gan ei fam rywbyrd yn ystod y noson! Roedd Ioan wedi mwynhau'r profiad o fod ar lwyfan y Neuadd unwaith eto ac roedd yn uchel ei ganmoliaeth o ymateb cynulleidfa gymysg o ran oedran i sioe a luniwyd yn wreiddiol i ddiddanu plant ysgol.

Cwta dwy flynedd sydd ers i Ioan ddechrau ar ei yrfa fel actor proffesiynol, a hynny ar hap a damwain. Astudiaethau Ffilm oedd pwnc ei gwrs yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ond wrth wneud tipyn o actio yno mewn ffilm a gynhyrchwyd gan gyd-fyfyriwr, fe sylwodd un o ddarlithwyr adran ddrama'r Coleg fod gan Ioan ddawn actio arbennig. O ganlyniad i'r anogaeth hon, a'r ffaith ei fod wedi cael blas ar actio yn yr Ysgol a'r Ysgol Sul pan yn blentyn, penderfynodd roi cynnig ar ddilyn gyrfa fel actiwr ar ôl graddio. Mae'n derbyn iddo fod yn ffodus iawn o gael gwaith yn bur gyson yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac ar waetha'r profiad o fyw allan o gês wrth fynd o theatr i theatr ledled Cymru, a hynny am wythnosau ar y tro, mae'n gwerthfawrogi'r profiad yn fawr.

Eglurodd Ioan fod angen cymaint, os nad mwy, o stamina i lwyddo fel actor ar daith nag i fod yn chwaraewr pêl-droed gan fod rhaid wrth egni diddiwedd wrth berfformio, a hynny ambell waith ddwywaith mewn diwrnod; hefyd, mae'n rhaid gosod y set a'r props bob tro, a'u tynnu i lawr ar ôl pob perfformiad cyn symud ymlaen i'r lleoliad nesaf. Ychwanegodd mai'r hyn mae'n ei fwynhau fwyaf am ei yrfa ar hyn o bryd, ar wahân i gydweithio ag aelodau eraill Cwmni'r Arad Goch, yw cael ei dalu am actio'r ffŵ! Ond peidiwch â chael eich twyllo gan y sylw ysgafn hwn oherwydd, wrth sgwrsio gydag ef, buan mae rhywun yn synhwyro ei fod yn ŵr ifanc meddylgar a phenderfynol, ond yn un sydd hefyd â'i draed yn solet ar y ddaear. Edrychwn ymlaen at ddilyn y camau nesaf yng ngyrfa Ioan yn y dyfodol.

# Pobl a Phethe

## Ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Brian a Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin, ar enedigaeith ŵyr bach newydd. Ganwyd Jacob Owen Gwyn yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar 16 Medi – mab arall i Ffion ac Ifer, a brawd i Iago Owen a Branwen. Pob lwc i'r teulu, sydd hefyd wedi bod yn brysyr yn symud i'w cartref newydd yn Gorseddfa, Criccieth, yn ystod mis Hydref.

## Croeso i Dal-y-bont

Pleser yw croesawu Neil ac Isla, a'u mab Lewis, i'w cartref newydd, sef 100 Maes-y-deri, Tal-y-bont. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

## Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd brynhawn Mawrth, Hydref 13. Braf oedd cael croesawu aelod newydd i'n plith, sef Ann Jones o Fachynlleth. Ein gwraig wadd oedd Beryl Vaughan o Lanerfyl, cymeriad hoffus yn llawn bwrlwm ac yn siaradwraig benigamp. Ers llawer blwyddyn bellach mae'n rhoi triniaeth 'Detox' a Carys Briddon gafodd y pleser o ennill triniaeth. Yn gyntaf rhoddir eich traed mewn dŵr cynnes gydag ychydig o halen, wedyn gosodir arau arbennig sy'n creu llif o electronau drwy'r corff am tua hanner awr i gael gwared â'r gwenwynau sydd yn y corff. Pwysleisiodd Beryl ei bod yn hanfodol i bawb yfed digon o ddŵr yn ddyddiol i gadw'n iach.

Mae'r arian a godir trwy'r gwahanol weithgareddau'n mynd tuag at 'Messiah Ministries Orphanage' yn Zambia. Erbyn heddiw mae wedi codi dros £50,000 i helpu sefydlu cartrefi i blant amddifad ac Ysgolion Cristionogol, beth bynnag fo eu crefydd. Yn 2000 amcangyfrifwyd bod tua 600,000 o blant bach yn amddifad yn y wlad oherwydd HIV/AIDS. Mae'n amlwg fod Beryl yn gwneud gwaith clodwif iawn, ac mae pob cyfraniad bach yn helpu'r plant anffodus hyn. Talwyd y diolchiadau gan Eirlys, ac i ddiweddu cafwyd paned o de wedi'i pharatoi

gan Eirlys, Daphne a Non.

## Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol nos Lun 2 Tachwedd, ac etholwyd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor am 2009/10: Juliet Regan (llywydd), Celia Groves (trysorydd), Jill Roberts (ysgrifenyddes), Wendy Fuller (ysgrifenyddes y cofnodion), Judith Pearson, Jacqui Relph, Ann Ovens, Vic Bamford a Joanna Pettitt. Yn dilyn y cyfarfod ffurfiol bu'r aelodau'n rhannu arferion da ynghylch ailgylchu. Mae pawb yn edrych ymlaen at ein Cinio Nadolig yn y Wildfowler ar 11 Rhagfyr.

## Bethesda, Tynant

Mae blwyddyn arall wedi hedfan heibio, gyda gwanwyn hyfryd ac yna haf ofnadwy o wlyb. Ni chynhaliwyd gymaint o oedfaon ag arfer eleni.

Gwnaed llawer o waith cynnal a chadw ychwanegol, er gwaetha'r tywydd. Diolch i'r saer coed, Alun Hughes, am ei waith bendigedig y tu allan i'r capel. Rydym fel aelodau'n hapus y bydd yr adeilad bellach yn sych heb ddim tamprwydd yn dod i mewn. Mae angen gwneud llawer mwy o waith y tu mewn, ond ar hyn o bryd mae'r sach yn wag; gobeithiwn y daw cymorth ariannol o rywle, fel a gafwyd yn y gorffennol.

Wedi haf gwlyb a diflas cafwyd tro ar fyd, gyda phawb wrth eu bodd yn croesawu'r 'Haf Bach Mihangel', ac ar 11 Hydref daeth llawer ohonom ynghyd ar gyfer y Cwrdd Diolchgarwch. Traddodwyd araith dymhorol ragorol gan Miss Beti Griffiths. Pleser bob amser yw croesawu Beti i Gwm Tynant, lle y magwyd ei thad a llawer o'r teulu.

Diolch i bawb am eu ffyddlondeb eleni eto, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yn 2010. Pob bendith.

*Elizabeth Royle Evans*

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn Eglwys Sant Pedr, Elerch, ar 18 Hydref. Hyfryd oedd gweld cynifer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn bresennol yn y



## Merched y Wawr

Nos Lun, Hydref 19 aeth aelodau'r gangen ar ymweliad â fferm y cigydd adnabyddus, Rob Rattray, lle mae ganddo sied fodern, bwrpasol i dorri, pacio a storio cig. Roeddem wedi cael ein siarsio i wisgo digon o ddillad cynnes gan fod y tymheredd yn isel yno!

Yn ei ffordd hwyliog a hamddenol, dangosodd Rob i ni sut oedd yn torri darnau yn yr hen ddull ac yn y dull modern. Clywsom enwau'r gwahanol doriadau a darnau, ynghyd â chynghorion ar sut i'w coginio. Yn barod i roi help llaw iddo roedd y plant – mae'n amlwg nad oes raid iddo boeni am ddyfodol y siop pan fydd yn barod i ymddeol!

Ar ddiwedd y noson cafodd yr aelodau gyfle i brynu'r cig o safon. Cyn troi am adre, fe'n gwahoddwyd gan Mrs Rattray i gegin y teulu i brofi'r selsig newydd, a greodd yn arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010, a llond bwrdd o ddanteithion eraill. Diolchwyd i'r teulu am eu croeso cynnes.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf, sef noson o grefftau'r Nadolig, ar Dachwedd 16 ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

Os am daesi neu fws mini

**CAMBRIAN  
CABS**


Teithiau Pell ac Agos  
**01970 626292**

CEFNOGWCH GYMRŴ LLEOL

**H. LLOYD WILLIAMS**  
CYNPAL A CHADW' GERDDI  
TORRI PORFA A SIETYN,  
GOSOD DECKING A SLABIAU


GOES DŴN YN ORINDŵ & HAUTY

32 Brynastell Ffôn: 01970 820999  
Eice Street Strydoli: 07996 50519



**Glanyrafon**

**Teiars**  
Aliniad Olwyn  
Ecsosts  
Batris  
Brêcs  
Hongiad  
Bar tynnu  
Gwasanaeth  
MOT



**Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galw'ch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK** Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**HUWLEWISTYRES.COM**



RECOVERIT

CLASSIC TYRES

**Ffôn 01970 636774**

**Rhian**  
trin gwaith gartref  
25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn: 832 612  
02835 525 553

**K Hughes**  
Plymio a Gwresogi  
Gwasanaeth Boiler Olw  
01970 832129  
07761 917235

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Ar ddechrau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref estynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Megan Mai, groeso i'r aelodau ac i Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion. Rhoddodd ef gyflwyniad cryno o'i rôl, gan egluro ei fod yn cynnig cyngor a chymorth annibynnol i gymunedau gwledig i ddarparu tai fforddiadwy fyddai'n cwrrd ag anghenion lleol. Esboniodd sut y gallai'r Cyngor Bro, mewn partneriaeth â'r Hwylusydd Tai Gwledig, chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu tai yn hytrach na bod ar gyrion eithaf y drefn bresennol sydd, fel arfer, yn cael ei harwain gan ddatblygwyr preifat neu gymdeithas dai. Amlinellodd y camau y byddai'n rhaid i'r Cyngor ymgymryd â nhw mewn partneriaeth â'r Hwylusydd i ddiwallu'r angen e.e. casglu tystiolaeth o'r galw am dai lleol fforddiadwy, chwilio am safleoedd addas i'w datblygu, cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio a chyrrff eraill, prynu tir a dewis datblygwyr. Ar ddiwedd y cyflwyniad cafwyd sesiwn frwd o holi ac ateb cyn cytuno i drafod posibiladau'r cynllun ymhellach.

Cyflwynodd y Cyngorydd Rhian Evans adroddiad o Gynhadledd Flynnyddol Un Llais Cymru ar y thema 'Datblygu Cymunedol'. Rhoddwyd lle canolog yn y Gynhadledd i gyflwyno'r Siartr newydd, sef ymgais i ffurfioli'r bartneriaeth rhwng y Cyngor Sir a Chyngorau Bro a Thref. Prif fyrddwn y trafodaethau a ddeilliodd o'r cyflwyniadau oedd ystyried arwyddocâd y pwyslais ar drosglwyddo rhagor o gyfrifoldeb dros gyflwyno rhai gwasanaethau o'r Cyngorau Sir i'r Cyngorau Bro.

Adroddodd y Clerc am y cyfarfod safle parthed y System Un-ffordd o amgylch y Patshyn Glas a gynhaliwyd gyda Pheiriannydd Cynorthwyol Rheoli Traffig, Cyngor Sir Ceredigion. Cytunwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau i'r arwyddion presennol ac ychwanegu arwyddion pellach er mwyn tynnu sylw gyrwyr at y system un-ffordd a weithredir o flaen y ddwy dafarn. Beth amser ar ôl y cyfarfod safle, roedd y Cyngor wedi derbyn awgrymiadau adeiladol pellach gan un o drigolion y pentref ar y mater, a chytunwyd i anfon y sylwadau hyn ymlaen at y Cyngor Sir.

Cyflwynwyd adroddiad byr o'r cyfarfod ymgynghorol gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Neuadd Rhydpennau yn ddiweddar. Prif fyrddwn y cyfarfod hwn hefyd oedd y Siartr newydd, a'r awgrym y dylid trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb o'r Cyngor Sir i Gyngorau Bro a Thref.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Gyfarwyddwr

Priffyrdd, Eiddo a Gwaith, Cyngor Ceredigion mewn ymateb i gonsyrn y Cyngor nad oedd stad dai Dôl Pistyll eto wedi ei mabwysiadu. Eglurwyd bod yr Awdurdod wedi ysgrifennu at y Datblygwr ynglŷn â'r gwaith yr oedd angen ei gwblhau, ond oherwydd amgylchiadau personol roedd y datblygwr wedi gofyn am ragor o amser. Cytunwyd i gysylltu â'r Uwch Beiriannydd er mwyn cael rhagor o wybodaeth pryd y gellir disgwyl i'r broses gael ei chwblhau.

Mae'r Cyngor wedi derbyn gwahoddiad pellach i fabwysiadu'r ddau giosg ffôn coch o fewn y gymuned (un ar bwys Cwmere ac un yn Bont-goch) am gost o £1 yr un. Yn ôl BT, dwy alwad a wnaed o giosg Cwmere yn ystod y 12 mis diwethaf, a phump o giosg Bont-goch. Mae BT wedi dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth bod galw am barhau'r gwasanaeth. Os yw'r Cyngor am fabwysiadu'r ciosgs, yna bydd raid cysylltu gydag Awdurdod Cynllunio Ceredigion am ganiatâd i ddatgysylltu'r ffonau. Trafodir y mater yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth ddau deulu lleol yn cwyno am yr Orsaf Bwmpio Carthffosiaeth yng ngwaelod pentref Tal-y-bont. Nododd y llythyr (i) bod ymweliadau'r lorri wacáu â'r orsaf ar gynnydd ac yn aml yn gadael arogleuon annymunol ar ei hól, (ii) bod carthion wedi eu gweld yn afon Leri o bryd i'w gilydd. Cytunwyd i gysylltu â Dŵr Cymru i holi a oes ganddynt gynlluniau ar y gweill i wella'r system, gan gofio'r nifer fawr o dai a godwyd yn y pentref dros y blynyddoedd diwethaf.

Derbyniwyd gohebiaeth yn holi a oes modd gwneud gwell defnydd o'r Patshyn Glas, sy'n cael ei gydnabod gan drigolion y gymuned fel adnodd hynod werthfawr. Cytunwyd i ohirio trafodaeth ar y pwnc pwysig hwn am y tro, ond ei osod ar agenda cyfarfod mis Ionawr.

**Afiath**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profesiadol • Profesiynol  
Prydan • Personol

Marie Bevan  
100000, 101 10000, 102000000  
Phon: 01970 832068  
Ffôn Ffôn: 01970 832068 afiath@aon.com

**S. F. BYRNE**  
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068  
M: 077626 20309  
Gwneir pob math o waith

# Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Llanfach ar 14 Medi, a thrafodwyd y materion canlynol:

Mae cyfrannu tuag at gost cyfarpar yng nghae chwarae'r ysgol yn dal dan ystyriaeth yn dilyn peth difrod i eiddo'r ysgol yn ddiweddar.

Gobeithir y bydd yr arwyddion newydd i gyfyngu ar y cyflymder drwy'r pentrefi yn cael eu gosod yn fuan.

Hefyd mae rhai llinellau melyn i'w gosod yn Nhaliesin; bydd hyn, gobeithio, yn lleddfu'r problemau mewn rhai mannau.

Derbyniwyd llu o gwynion ynglŷn â baw cŵn ar hyd ffordd Neuadd-yr-Ynys a gobeithir y bydd yr arwyddion newydd ac ymweliadau gan y Warden Cŵn yn datrys y broblem yn yr ardal.

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg sydd i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei baratoi a'i ddychwelyd erbyn 4 Rhagfyr 2009.

Mae Fferm Wynt Airtricity yn dal i gael ei thrafod a'i hystyried.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir i gadarnhau y bydd y goleuadau stryd yn yr ardal yn cael eu diffodd o hanner nos hyd 5 o'r gloch y bore yn fuan.

Gobeithir cael yr adroddiad diweddaraf ynglŷn â llwybr yr arfordir erbyn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd gohebu â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â dyddiad cychwyn y gwelliannau arfaethedig i'r ffordd yng Nglandyfi. Bu llawer o oedi yn ystod yr haf pan oedd loriau, cychod a bysiau yn

cwrrd â'i gilydd gan rwystro'r drafnidiaeth o bob cyfeiriad.

Trafodwyd y biniau ailgylchu wrth yr ysgol gan fod deunydd a ddylai gael ei gludo i'r domen yn cael ei adael wrth y biniau o bryd i'w gilydd. Ystyriwyd tybed pryd bydd y Cyngor Sir yn estyn y cynllun bagiau ailgylchu a biniau bwyd i'r rhan yma o'r sir.

**James Memorials**

Am  
GOFERAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DALA  
BUSNESAU

Gofynnwch am bannffed  
rhed' ar am olfôn

James Memorials  
Vicarsgate Crossing,  
Llantriss, Bow Street  
Ffôn: 01970 832068

**CODI Tŷ NEU  
ESTYNIAD?**

Icea Jones, Technegydd Personol  
Gellinnydd, Trefor, Castellon 574 218  
01970 832068



# Ysgol Gynradd Tal-y-bont



## Dadorchuddio Croglen Arbennig

Ar nos Iau 22 Hydref, cynhaliwyd noson goffi arbennig iawn yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont. Prif bwrpas cynnal y noson oedd dadorchuddio croglen (tapestry) newydd yn seiliedig ar rai o brif nodweddion pentref Tal-y-bont. Roedd creu'r groglen yn benllanw misoedd o gydweithio rhwng holl blant yr ysgol a Cefyn Burgess, yr artist enwog o ardal Bethesda. Bu'r plant wrthi am wythnosau'n cynllunio a gwneud eu rhannau unigol cyn i Cefyn roi'r cyfan at ei gilydd i greu croglen liwgar iawn. Gallwch adnabod nifer o nodweddion daeryddol, hanesyddol a Christnogol y pentref yn hawdd yng ngwaith y plant.

Roedd y noson goffi hefyd yn gyfle i ddweud diolch wrth nifer o unigolion a sefydliadau am eu cymorth i'r ysgol. Cafwyd nawdd sylweddol gan Gronfa Leri i wireddu breuddwyd yr ysgol o greu gwaith tecstiliau o safon fyddai'n para ar y muriau am flynyddoedd lawer i ddod. Derbyniwyd y diolch ar ran Ymddiriedolwyr Cronfa Leri gan Mr Gwynfryn Evans, ac fe gafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddo.

Rhoddyd diolch hefyd i Mrs Valma Jones am ei rhodd hael o garthen o hen Ffatri Ceulan i fod yn gefndir i'r groglen. Mae'r garthen yn ffordd weledol o gysylltu'r gorffennol gyda'r dyfodol, gan greu rhywbeth newydd cyffrous ar gyfer y dyfodol.

Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i bawb am gefnogi'r noson ac os nad oeddech yn gallu bod yn bresennol mae croeso i chi alw heibio i weld y groglen hynod liwgar.

## Yr Urdd

Ar noson Tŷn Gwylt y dechreuodd gweithgareddau'r Urdd am eleni. Daeth Meinir Wyn Edwards a Morgan Tomos atom ni i esbonio sut y gwnaethon nhw eu rhannau gwahanol o'r llyfr *Twm Siôn Cati* a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Y Lolfa. Morgan oedd wedi gwneud y lluniau a Meinir ysgrifennodd y stori. Diolch am noson ddifyr iawn.

## Traws-gwlad

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant fu'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r cylch yn ystod y mis. Llongyfarchiadau arbennig i Ella a Celyn Evans, Keira Forster-Brown a Joshua Abbott am ddod yn y 10 cyntaf ac ennill yr hawl i gynrychioli'r ardal ym mhencampwriaethau'r sir y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Ella a Celyn Evans, Joshua Abbott a Zoë Forster-Brown am gystadlu mor frwd mewn pencampwriaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Athletau Cymru. Bydd cyfle i gystadlu eto mewn pencampwriaeth arall yn Aberhonddu yn ystod mis Tachwedd.



## Arian i'r Ysgol

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Llinos Jones a David Jones-Hughes o Fanc Barclays am eu cymorth parod yn trefnu barbeciw blynyddol yr ysgol. Cafwyd noson hynod lwyddiannus, gyda chyfraniadau plant Blwyddyn 6 yn ardderchog. Noddwyd y noson fel rhan o'r cynllun £ am £ y banc.




*Plant Ysgol Tal-y-bont ger Bedd Taliesin*

## Taith i Fedd Taliesin

Ar ddechrau mis Tachwedd trefnwyd i blant Tal-y-bont a Llangynfelyn gerdded o'u hysgolion a chyfarfod ger Bedd Taliesin i gael clywed y chwedl. Y storiwr oedd Alun Elidir, ac fe adroddodd y stori'n hynod fyw a hwyliog i'r plant i gyd. Hoffem ddiolch o galon i Alun am ei gyflwyniad difyr ac i Mrs Myfanwy James am ei chymorth – fe gafodd pawb amser gwych.


## Nofio

Bu Joshua Abbott a Bethan Benham yn cystadlu ym mhencampwriaethau nofio'r Urdd yr wythnos ddiwethaf. Da iawn chi am gynrychioli'r ysgol mor egniol.



## Arlunwraig o fri

Mewn cystadleuaeth 'Y Darlun Mawr' a drefnwyd gan Amgueddfa Ceredigion, enillodd Keira Forster-Brown y wobr gyntaf i ddisgyblion CA2. Thema'r gystadleuaeth oedd 'Pren' ac roedd Keira wedi tynnu llun o Arch Noa.



## Noson o adloniant

Nos Wener 6 Tachwedd aeth nifer o ddisgyblion B5 a 6 i gynnal noson o adloniant i Aelwyd yr Urdd Aberystwyth. Bu'r plant yn ymarfer ers wythnosau ac roedd pawb yn edrych ymlaen at gael perfformio. Yn cymryd rhan roedd y côr, grŵp recorders, grŵp telynau, deuawd, triawd ac unigolion. Cafwyd eitemau lleisiol, offerynnol a llafar. Diolch i'r rhieni am fod mor barod i gludo'r plant ac am eu cefnogi.



# Humphrey Jones a'r Llong *Tamerlane*

Yn gynnar fore Llun, 31 Mai 1847, gadawodd llong hwyliu enfawr 700 tonn o'r enw *Tamerlane* borthladd Aberystwyth am Quebec yng Nghanaada. Ar ei bwrdd yr oedd tua 242 o ddynion, merched a phlant o ogledd Ceredigion, y rhan fwyaf o ardal Lledrod, Trisant, Mynydd Bach, a Phont-rhyd-y-groes. Eu bwriad oedd teithio i Quebec gan weithio eu ffordd i lawr y llynnoedd mawr i ogledd America i ardal Oshkosh yn Wisconsin er mwyn sefydlu bywyd newydd yno.



Hynodrwydd y fintai ar fwrdd y *Tamerlane* oedd eu bod i gyd yn Gymry Cymraeg, i gyd o'r un ardal fwy neu lai, ac fel un teulu mawr. Cymerodd y llong naw wythnos i groesi'r Iwerydd ac o'r holl bobl oedd arni dim ond un fu farw ar y daith. Rhaid cofio bod newyn tatws Iwerddon yn ei anterth ar y pryd, gyda'r holl afiechydon a chlefydau heintus yn ymledu yn ei sgil. Plentyn dwyflwydd oedd David Thomas Davies pan fentrodd ar y daith enbyd honno gyda'i deulu, a bu'r fordaith yn brofiad mor frawychus iddo fel nad aeth yn agos at gwch am weddill ei fywyd. Cyrhaeddodd y *Tamerlane* Quebec yn niwedd Gorffennaf a'r fintai honno oedd sylfaenwyr y Sefydliad Cymreig yn Oshkosh, yn Awst 1847.

Yn Hydref 1847 ymfudodd Hugh ac Elisabeth Jones, Gwarcwm-bach, Llangynfelyn i Efrog Newydd gyda dau fab, Hugh a John, a'u merch Susanna, gan adael Humphrey Jones, y mab arall, yn fachgen pymtheg oed gyda'i fodryb Sophia yn yr *Half Way Inn*, Tre'r-ddôl. Yn 1852 symudodd ei rieni i'r Sefydliad Cymreig yn Oshkosh. Roedd Humphrey Jones â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth gyda'r Wesleaid yng Nghymru, ond fe'i gwrthodwyd am nad oedd galw am weinidogion; oherwydd hynny ymfudodd yntau at ei deulu yn 1854. Ef fu'n gyfrifol am sefydlu eglwys Wesleidd Bethel, Oshkosh yn 1855 gyda chymorth aelodau'r fintai oedd ar y *Tamerlane* ac ef oedd ei gweinidog cyntaf.

Yn 1856 cafwyd Diwygiad nerthol yno a Humphrey Jones yn un o'r

rhai mwyaf blaenllaw. Bu wrthi'n pregethu'n ddi-baid am ddwy flynedd yn y sefydliadau Cymreig yn Wisconsin, Ohio, Pensylfania ac Efrog Newydd cyn penderfynu dychwelyd i Gymru ym Mehefin 1858. Pan ddaeth Humphrey Jones yn amlwg fel Diwygiwr, roedd yn ddyn ifanc cryf o gorff a meddwl, yn olygus a diymhongar a chanddo ddawn llefaru cyfoethog a swynol.

Dychwelodd i Dre'r-ddôl o ganol gwres a chynnwrf diwygiad mawr America, ond roedd yn wynebu cyfnod isel iawn yn hanes crefydd yng Nghymru. Teithiodd o Lerpwl yn y goets fawr gan ddisgyn wrth ddrws yr *Half Way Inn*, ei hen gartref, a dechreuodd gyfres o gyfarfodydd yn yr Hen Gapel, Tre'r-ddôl a arweiniodd at Ddiwygiad Mawr 1859 y dethlir ei gan mlwyddiant a hanner eleni. Llwyddodd Humphrey Jones i gael y Parch. Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth i gydweithio ag ef a chafwyd cyfarfodydd eithriadol o rymus yn yr ardaloedd rhwng Ystumtuen a Phont-rhyd-y-groes.

Roedd Humphrey Jones yn ei elfen ynghanol perthnasau a theuluoedd y fintai a ymfudodd i Oshkosh. Cymaint oedd dylanwad ac effaith y ddau ddiwygiwr fel y bu iddynt wagio tafarndai'n llawn o feddwon oedd yn rhegi ac yn ymladd yn ofnadwy ar nos Sadwrn tâl yn ardal y gweithfeydd mwyn, a hynny drwy rym eu gweddïau'n unig. Rhedai pawb allan mewn braw ac aeth hyd yn oed y tafarnwr i guddio yn rhywle. O fewn ychydig ddyddiau roedd y meddwon hyn wedi eu derbyn yn aelodau eglwysig.

Ymledodd y Diwygiad drwy Gymru gyfan, ond roedd tair blynedd yn ei wres a'i gynnwrf wedi amharu ar iechyd Humphrey Jones. Rhwng cyfnodau mewn ysbytai meddwl, enciliodd i Ddôlclerwr lle roedd ei fodryb Sophia yn byw hyd 1871 pan ddaeth ei frawd John draw o'r America i'w gyrchu'n ôl yno at ei deulu. Bu'n glaf o gorff a meddwl am flynyddoedd, ond yn raddol adferwyd ei iechyd a dychwelodd drachefn i weinidogaethu ar eglwys Bethel yn Oshkosh gyda'r Cymry a ymfudodd o ogledd Ceredigion ar y llong *Tamerlane*. Bu farw ar 8 Mai 1895 ac fe'i claddwyd yn Brant, Wisconsin.

*Hefin Llwyd*

Argraffu 5-lliw  
a gwasanaeth di-ail:  
holwch Paul am bris  
ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)

**yloffa**  
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE  
01970 832 304  
[yloffa@yloffa.com](mailto:yloffa@yloffa.com)  
[www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)



## Hen Lun

Dyma lun o dîm pêl-droed Tal-y-bont yn y tymor 1923/24. Os oes unrhyw un o ddarlennwyr *Papur Pawb* yn medru llenwi'r bylchau yn enw'r chwaraewyr sydd i'w gweld yn y llun, byddem yn falch o glywed gennych.

O'r chwith:

*Rhes ôl:* Wil Morgan, Ceulan House; Johnny Richards, Yr Office; ?; John Llewelyn Evans, Paris House; ?; Gwilym Davies, Tegfan; Wil Cyrls, Maldwyn House; ?.

*Rhes flaen:* ?; Maldwyn Hughes (mab Willie Hughes y painter); Wil Griffiths, Y Felin; Garfield Williams, Cwm Road; Gwyn James, Tanffordd.

*Llun trwy garedigrwydd David James, Brynceulan.*

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

ANGEN  
Anifeiliaid Tew  
(i'w lladd mewn  
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis  
Capel Bangor 880627

# GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini  
i'w gyrru eich hun

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

Ffôn: 01970 832278

**Gwasanaeth Scanio**  
**ARTHUR MORGAN**



Ffôn: 01970 832278

**Salon Leri**

*Yn agored a stry  
gwalle gan Richard*

Profesiwr Manion  
Manion  
Llan-Gwyn

01970 832278

## CFfi Tal-y-bont

Erbyn hyn, rydym wedi cael sawl noson ddifyr yn y Clwb Ffermwyr Ifanc. Buom yn Llanddewi Brefi i Chwaraeon y Sir, cael noson yng nghwmni'r awdures Caryl Lewis, a mwynhau Helfa Drysor, pan aeth llawer ar goll! Bu cwplwl o gyfarfodydd hefyd, efo'r un mwyaf ar gyfer trafod sefyllfa yr Arweinyddion, a chystadlaethau'r Eisteddfod.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Sant Pedr, Elerch, dan ofal y Parch. John Livingstone, trwy garedigrwydd yr aelodau.

Cafwyd llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir ar benwythnos olaf Hydref, gydag Aled Llŷr a Geraint Cerrigaranau'n cipio'r wobwr am Stori a Sain ar y nos Iau, ac Elen Steddfa'n dod i'r brig efo'r unawd 16 ac iau. Yr un fu'r hanes ar y dydd Sadwrn wrth i lais swynol Elen ennill y wobwr gyntaf iddi am yr Alaw Werin. Yn ystod y seremoni Gadeirio, daeth clod i Mererid Cwmudw wrth iddi ddod yn ail am y stori fer, ac yn drydydd am y Gadair. Ac yn olaf, daeth llwyddiant i griw'r sgets! Bydd Elen, Aled, Geraint a'r criw yn cynrychioli'r Sir yn Steddfod Cymru a gynhelir yn Llandudno ddiwedd Tachwedd. Bydd Geraint hefyd yn cynrychioli'r Sir yn y Ffair Aeaf drwy farnu da biff.

Er gwaetha'r glaw, cynhaliwyd noson Tân Gwylt a'r Barbeciw blynyddol ar fferm Tynant drwy garedigrwydd Teulu Evans. Braff oedd gweld aelodau a chyn-aelodau'n mwynhau'r goelcerth, a'r byrgyrs blasus!

### Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

#### GYREA CHWIST

#### DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Nos Fercher 16 Rhagfyr

am 8 o'r gloch

*Croeso cynnes i bawb*

### FFRINDIAU CARTREF

#### TREGERDDAN


Cynhelir Cyfarfod Blynyddol

yn y Cartref nos Fercher

25 Tachwedd am 7 o'r gloch

*Croeso cynnes i bawb*

## Dofednod Cwmtynant



### Dofednod ffres o fferm leol.

Archebwch wydd, twrci, hwyaden

neu gwy iâr erbyn y Nadolig

Cysylltwch â Dilwyn, Marion,

Rhydian neu Elgan

Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

## Canlyniad BLE YN Y BYD

Barbara Madden, 13 Maes y Deri – tocyn llyfrau £10.00 ar y ffordd.

**Ateb cystadleuaeth mis Hydref: Salon Leri.**

# Ble yn y byd?

### Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

---

Enw

---

Cyfeiriad

---

Côd Post

---

Rhif Ffôn

---

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 6 Tachwedd.

**Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £10**

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.



# CHWARAEON



## Ar y Brig... Dros Dro

Pan dynnwyd y llun uchod o dîm pêl-droed Tal-y-bont ym mis Hydref, roedd y tîm ar frig ail adran Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch, ond erbyn mis Tachwedd, gyda'r gystadleuaeth ar y brig mor ffyrnig, gwelwyd Tal-y-bont yn disgyn un safle. Ar y pryd, roedd Tal-y-bont wedi chwarae mwy o gêmiau na sawl tîm arall, ac mae'n amlwg y bydd tipyn o frwydr o flaen y bechgyn i sicrhau dyrchafiad i'r adran gyntaf.

Serch hynny, cafwyd sawl buddugoliaeth dda yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Curwyd Phoenix, tîm o fyfyrwyr y Brifysgol, o 3-1, gyda Robbie Southgate, Barry Southgate a Carl Jones yn rhwydo. Yna cafwyd buddugoliaeth dda yn erbyn Llandudoch yn y gwpan. Fodd bynnag, ar ddiwrnod olaf Hydref, collwyd yn erbyn trydydd tîm y Coleg mewn gêm gynghrair, a llithro o'r brig. Mae Tal-y-bont hefyd allan o Gwpan Emrys Morgan ar ôl colli 3-0 yn erbyn Llamed.

### Enillydd Iwcus!

Llongyfarchiadau i Garmon Nutting, Tyhen Henllys, am ennill pedwar tocyn mewn cystadleuaeth ar raglen deledu Uned 5 i wylïo'r gêm rygbi rhwng Cymru a Seland Newydd ddydd Sadwrn 7 Tachwedd. Cafwyd diwrnod i'w gofio, er gwaetha'r sgôr ar ddiwedd y gêm!

### Pêl-droedwyr dawnus

Llongyfarchiadau i Garmon Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont, a Llion Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais, ar gael eu dewis yn aelodau o dîm pêl-droed Ysgolion Ceredigion dan 16 oed. Pob hwyl i chi, fechgyn!



*Marc Richards yn ymuno â'r ymosod yn y gêm yn erbyn Phoenix*

### Cymdeithas Sioe Tal-y-bont CINIO BLYNYDDOL

Gwesty'r Marine, Aberystwyth, Nos Wener 4 Rhagfyr 2009

**Gŵr gwadd: Dai Jones, Llanilar**

Cwrdd am 7 i fwyta am 7.30

*Enwau i Janet (832293) erbyn 28 Tachwedd*